Adroddiad ar gynlluniau Cymraeg Gwaith

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol/The National Centre for Learning Welsh

Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Dyddiad yr arolygiad: Tymor y gwanwyn 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Cyflwyniad

Ers sefydlu y cynllun Cymraeg Gwaith yn 2018, mae wedi esblygu i fod yn gynllun aml haenog sydd yn cyfrannu'n fwriadus at wireddu strategaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd o leiaf miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn ystod 2023-24 derbyniodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyllid gan Lywodraeth Cymru o £2,575,832 at ddiben Cymraeg Gwaith.

Mae'r cyllid hwn yn cynnal elfennau gwahanol y cynllun sef

- Gwasanaeth a gwybodaeth
- Cyrsiau hunan-astudio byr a datblygiadau digidol
- Cyrsiau dysgu
- Cyrsiau defnyddio yng Nghanolfan Nant Gwrtheyrn – gweler Adroddiad arolygiad Dysgu Cymraeg Learn Welsh Nant Gwrtheyrn 2023
- Cynllun iechyd a gofal
- Cyrsiau codi hyder
- Cynllun awdurdodau lleol
- Cynllun addysg bellach ac addysg uwch
- Cyrsiau hunan astudio 'Camau' ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar.
- Cynllun chwaraeon

Mae Cynllun Strategol 2024-2026 y Ganolfan Genedlaethol yn ymrwymo i ddatblygu'r rhaglen Dysgu Cymraeg i weithleoedd, gan flaenoriaethu sectorau penodol a thrwy gefnogi cyflogwyr i gynllunio ar gyfer gweithlu dwyieithog, cydweithio ag adrannau polisi amrywiol o fewn Llywodraeth Cymru i ymestyn y cynllun yn sectorol, a blaenoriaethu sectorau yn gydlynus o ran cynllunio ieithyddol. Mae'n darparu cyrsiau'n ddi-gost, ac mae dros 2,000 o gyflogwyr wedi defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael ers dechrau'r cynllun.

Erbyn hyn, darparwyr y sector Dysgu Cymraeg sy'n darparu bron pob un o'r rhaglenni gwahanol.

Yn ystod 2023-24, roedd 18,330 o ddysgwyr yn y sector Cymraeg i oedolion a 6,916 o'r rheiny yn ddysgwyr ar gyrsiau Cymraeg Gwaith. Roedd oddeutu traean o'r gweithgareddau dysgu yn rhai Cymraeg Gwaith.

## Methodoleg

Nod yr arolygiad hydredol hwn yw gwerthuso ansawdd a thraweffaith rhaglenni Cymraeg Gwaith y sector Dysgu Cymraeg dan ofal y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Canolbwyntiom ar saith adran o fewn y cynllun Cymraeg Gwaith:

- Gwasanaeth a gwybodaeth
- Cyrsiau dysgu
- Cyrsiau defnyddio Nant Gwrtheyrn
- Cyrsiau awdurdodau lleol
- Cyrsiau iechyd a gofal
- Cyrsiau codi hyder
- Cynllun chwaraeon

Cynhaliwyd y gwaith maes dros gyfnod o dri mis yn ystod tymor y gwanwyn 2025. Yn ogystal, craffwyd ar dystiolaeth o arsylwadau sesiynau Cymraeg Gwaith a gasglwyd yn ystod arolygiadau craidd o ddarparwyr Dysgu Cymraeg unigol rhwng 2020 a 2024.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar 74 arsylwad unigol ar draws pob darparwr Dysgu Cymraeg ac mae'n cynnwys sesiynau ymwybyddiaeth iaith a chynllunio ieithyddol i'r sector iechyd a heddluoedd Cymru a gynigir trwy Academi Cymraeg Gwaith.

Mae'r sampl yn cynnwys sesiynau Cymraeg Gwaith mewn dros hanner o awdurdodau lleol Cymru, pump bwrdd iechyd, a sefydliadau cenedlaethol, cyrff amlwg yn y byd chwaraeon, cyrff gwirfoddol, Yr Awyrlu Brenhinol, heddluoedd a nifer o gyflogwyr amrywiol ar draws Cymru. Siaradom â dysgwyr a thiwtoriaid i drafod effaith y cyrsiau ar ddysgwyr o ran caffael y Gymraeg a'u defnydd ohoni yn eu gweithleoedd.

Ymwelwyd â phump darparwr Dysgu Cymraeg rhwng Chwefror ac Ebrill 2025:

- Dysgu Cymraeg Gwent
- Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe
- Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin
- Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain
- Dysgu Cymraeg Caerdydd

Yn ystod ymweliadau cwrddom â phenaethiaid darparwyr, uwch reolwyr sefydliadau cartref y darparwyr a swyddogion perthnasol amrywiol y darparwyr. Yn ogystal, cynhaliom gyfarfodydd gydag uwch swyddogion y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â Cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau ôl-16 (Mawrth 2025) sy'n cynnwys gwerthusiad o'r cynllun Cymraeg Gwaith addysg bellach, dan ofal y Coleg Cymraeg Cenedlaethol trwy gytundeb gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

## Crynodeb

Mae cynlluniau Cymraeg Gwaith yn cyflawni rôl allweddol wrth sicrhau gweithlu Cymraeg ei iaith mewn ystod gynyddol o sectorau a gweithleoedd ar draws Cymru.

Mae'r ddarpariaeth yn gynhwysfawr ac mae safonau'r addysgu a dysgu yn gryf yn gyffredinol.

Mae bron pob un tiwtor yn llwyddo i greu a chynnal awyrgylch gadarnhaol mewn gwersi wyneb yn wyneb ac ar-lein sydd yn sail gadarn i ddysgwyr gaffael a datblygu eu defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos cymhelliant cryf iawn dros ddysgu ac yn cymryd rhan yn gydwybodol mewn sesiynau. Maent yn mwynhau eu sesiynau ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu gan ddod yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog.

Yn yr achosion gorau mae tiwtoriaid yn addasu a theilwra sesiynau i anghenion proffesiynol y dysgwyr. Drwy wneud yr addysgu'n berthnasol mae'r dysgwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio eu medrau rhwng gwersi yn y gweithle. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau nid yw tiwtoriaid yn teilwra'r cynnwys yn ddigon cyson i sicrhau perthnasedd y gwersi i'r gweithle.

Mae mwyafrif y dysgwyr ar raglenni Cymraeg Gwaith yn nodi nad oes digon o gefnogaeth gan eu cyflogwyr. Er enghraifft, nid yw rheolwyr llinell yn gwirio eu cynnydd neu drafod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu swyddi. Mae ychydig o ddysgwyr yn dweud nad ydynt yn cael eu rhyddhau o'u dyletswyddau arferol i fynychu dosbarthiadau ac mae hyn yn cynyddu eu llwyth gwaith. Mae hefyd yn eu rhwystro rhag mynychu'n gyson.

Yn gyffredinol, mae'r cysylltiad rhwng yr addysgu a dysgu a'r elfen gynllunio ieithyddol ar ei orau pan fo tiwtoriaid llawn amser yn gweithio'n strategol o fewn sectorau penodol fel y sector iechyd, awdurdodau lleol a'r sector chwaraeon. Mae'r tiwtoriaid hyn yn dod i adnabod anghenion addysgol a galwedigaethol eu dysgwyr ac yn gweithio'n ddiwyd ac yn greadigol ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg gan y dysgwyr hynny o fewn eu gweithleoedd. Maent hefyd yn ffurfio perthnasoedd gwaith buddiol gyda staff allweddol yn y sefydliadau, fel swyddogion iaith Gymraeg, ac yn cyfrannu at drafodaethau mewnol ar gynllunio

gweithlu. Drwy wneud hyn maent yn dylanwadu'n werthfawr ar agweddau ac arferion ieithyddol y sefydliadau hynny. Mae hyn yn ei dro yn arwain at addysgu a dysgu mwy effeithiol, ac yn y pendraw at wasanaethau gwell i siaradwyr Cymraeg eu hiaith.

Mae'r traweffaith mwyaf arwyddocaol ar gynllunio ieithyddol pan fo darpariaeth yn targedu dysgwyr lefel Canolradd ac uwch a siaradwyr dihyder. Mae tiwtoriaid medrus yn llwyddo i'w troi'n siaradwyr gweithredol mewn cyfnod cymharol fyr.

Dyrennir cyllid Cymraeg Gwaith ar sail prosiectau unigol, tymor byr ac mae rheolwyr darparwyr Dysgu Cymraeg yn treulio cryn dipyn o amser ar weinyddu'r ffrydiau cyllid amrywiol. Mae cynllunio a rheoli ar sail tymor byr yn heriol o ran cynnal a datblygu staff medrus, ac mae'n cyfyngu cyfleoedd cynllunio ieithyddol strategol.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Y Ganolfan) yn datblygu ei pherthynas gyda swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn fuddiol gyda phwyslais clir ar newid ymddygiad ieithyddol a datblygu dulliau o fesur defnydd o'r iaith. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau i fesur effaith y ddarpariaeth ar newid ymddygiad iaith wedi eu datblygu'n llawn eto.

Mae arweinwyr y Ganolfan yn adnabod cyfleoedd i gysoni a gwella strwythurau, cyfathrebu, ac arferion addysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar sefydlwyd grŵp y gweithle sy'n dod â swyddogion Cymraeg Gwaith cenedlaethol a swyddogion o bob darparwr Dysgu Cymraeg at ei gilydd. Mae'r grŵp yn trafod a rhannu heriau, adnabod arferion da yn ogystal â sicrhau bod y swyddogion gweithle yn rhan o'r cynllunio strategol. Mae hyn adleisio strwythur llwyddiannus tebyg sy'n bodoli eisoes yn y sector iechyd a gofal. Mae'r datblygiad hwn yn un pwysig oherwydd, hyd yn hyn, mae darparwyr Dysgu Cymraeg wedi canolbwyntio ar ddarparu'n bennaf ac nid ydynt wedi cyfrannu digon at drafodaethau o ran cynllunio ieithyddol y gweithlu.

Mae'r Ganolfan hefyd wedi penodi tiwtoriaid Codi Hyder cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar gynlluniau dilyniant ac ôl-ofal gan gydweithio â swyddogion perthnasol o fewn sefydliadau sy'n derbyn gwersi a darparwyr Dysgu Cymraeg.

Mae arweinwyr y Ganolfan wedi dangos gweledigaeth arloesol wrth gyflwyno a datblygu'r cynllun Cymraeg Gwaith. Maent yn gweithio'n effeithiol iawn gyda chyflogwyr, darparwyr a rhanddeiliaid i'w ehangu a chynllunio ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a'r gweithdrefnau i'w chynnal.

Mae'r galw cynyddol am ehangu'r ddarpariaeth werthfawr bresennol yn dangos yn glir bod Cymraeg Gwaith erbyn hyn yn un o gonglfeini mentrau cynllunio ieithyddol yn y gweithle. Mae'r rhaglenni gwahanol yn cyflawni swyddogaeth hynod bwysig a chanolog mewn

ymdrechion i ymestyn a normaleiddio defnydd o’r Gymraeg mewn sectorau sydd yn greiddiol i ddyfodol yr iaith Gymraeg fel iaith weithredol fyw.

## Argymhellion i’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

A1 Parhau i weithio gyda darparwyr Dysgu Cymraeg i sicrhau bod tiwtoriaid yn teilwra cyrsiau’n briodol at ddibenion grwpiau penodol o ddysgwyr a’u gweithleoedd ac yn ymwybodol o’r holl gymorth ac adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr a’u cyflogwyr.

A2 Gweithio ar y cyd â darparwyr Dysgu Cymraeg a chyflogwyr i gynllunio datblygiad ieithyddol staff yn fwriadus fel bod cefnogaeth ymarferol iddynt fynychu gwersi, heb gynyddu eu llwyth gwaith, a sicrhau bod cyfleodd ystyrlon ganddynt i ddefnyddio eu medrau yn y gweithle.

A3 Ymchwilio, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, i ddatblygu model darparu a chyllido sy’n cefnogi cynlluniau hir-dymor ac sy’n blaenoriaethu dysgwyr ôl-ganolradd a siaradwyr dihyder.

A4 Parhau i ddatblygu dulliau o fesur effaith darpariaeth ar newid ymddygiad iaith unigolion o fewn eu gweithleoedd.

## Prif arfarniad

### Darpariaeth

Dyrennir rhaglenni Cymraeg Gwaith i ddarparwyr trwy broses dendro. Ar hyn o bryd, darparwyr sydd eisoes yn rhai Dysgu Cymraeg (prif ffrwd) sy’n darparu bron pob rhaglen Cymraeg Gwaith. Golyga hyn bod Cymraeg Gwaith yn manteisio ar drefniadaeth Dysgu Cymraeg yn genedlaethol a chysylltiadau darparwyr â’u cymunedau lleol i ddarparu ar draws y wlad. Mae hefyd yn sicrhau cysondeb yn y math o ddarpariaeth sydd ar gael i weithleoedd, er enghraifft y ddarpariaeth o fewn awdurdodau lleol. Bellach, lleolir tiwtor llawn amser o fewn chwech awdurdod lleol. Maent hefyd yn darparu cyrsiau i sefydliadau cenedlaethol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Llenyddiaeth Cymru, Cyngor y Celfyddydau, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Macmillan Cancer Support. Yn ystod 2024-25, sefydlwyd darpariaeth Cymraeg Gwaith o fewn Heddlu Gogledd Cymru a chytunwyd yn ddiweddar ar ddarpariaeth ar gyfer Heddlu Gwent.

Mae llawer o’r sefydliadau hyn yn ddarostyngedig i Safonau’r Iaith Gymraeg ac maent i gyd yn ymwneud yn rheolaidd â’r cyhoedd a rhanddeiliaid. O ganlyniad, mae’r cyrsiau

Cymraeg yn allweddol o ran atgyfnerthu ac ehangu gweithlu sy'n medru'r Gymraeg yn ogystal â chryfhau ymwybyddiaeth staff o'r iaith a meithrin agweddau cadarnhaol tuag ati.

Mae darparwyr rhagweithiol yn cydweithio â'r Ganolfan i ddenu sefydliadau newydd i fod yn rhan o'r cynllun, gan gynnwys busnesau sydd yn cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd. Er enghraifft, defnyddiodd staff Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin eu gwybodaeth leol i greu darpariaeth newydd sy'n diwallu anghenion busnesau'r ardal.

Lleolir tiwtor Codi Hyder ym mhob bwrdd iechyd a chynigir gwersi ar bob lefel yn ystod oriau gwaith. Mae'r ddarpariaeth yn cynorthwyo staff sy'n mynychu gwersi i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg gyda chleifion a chydweithwyr. Mae gwersi Codi Hyder yn darparu cymorth unigol effeithiol iawn i staff sydd am fireinio eu medrau iaith i'w defnyddio wrth drafod materion clinigol gyda chleifion.

### Ciplun: Codi hyder yn y sector iechyd

Drwy holiaduron a sgyrsiau unigol mae tiwtoriaid codi hyder o fewn y byrddau iechyd yn dod i ddeall pam nad yw aelodau staff yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith. Cynigir sesiynau mentora un i un a chymorth wedi'i deilwra i'w hanghenion ieithyddol. Cynigir cyfleoedd hefyd i ymarfer siarad gyda chydweithwyr eraill a threfnir cyrsiau preswyl am ddim yn Nant Gwrtheyrn ar gyfer staff y gwasanaeth iechyd a gofal sy'n gallu siarad ar lefel Canolradd, Uwch a Gloywi. Erbyn hyn mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru, yn ogystal â Gofal Cymdeithasol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, diwtor Cymraeg Gwaith llawn amser sy'n gweithio gyda staff. Mae hyn yn cyfrannu at wireddu cynllun Llywodraeth Cymru Mwy na Geiriau sy'n cydnabod yr angen ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau trwy ddewis iaith siaradwyr Cymraeg ar adeg pan maent yn teimlo fwyaf bregus.

Mae'r targedu strategol o siaradwyr dihyder yn nodwedd lwyddiannus iawn o'r cynllun fel y gwelir ar gyrsiau Defnyddio a gynhelir gan Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn. Drwy ymdrochi yn yr iaith a'i diwylliant mae dysgwyr yn caffael yr iaith yn gyflym, magu hyder ac yn troi'n siaradwyr gweithredol.

Mae'r cynllun chwaraeon yn cynnig cyfleoedd i staff yn y sector ddysgu a defnyddio'r iaith naill ai yn fewnol, gyda'r cyfryngau, neu yn y gymuned wrth ymwneud â'r cyhoedd. Mae darpariaeth nodedig mewn sefydliadau adnabyddus fel Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Undeb Rygbi Cymru, Clwb Pêl-droed Wrecsam a'r Gweilch. Targedir y sefydliadau hyn fel ffordd o integreiddio a normaleiddio defnydd o'r iaith mewn sector sy'n cyffwrdd â bywydau cynifer o bobl o bob oedran. Mae cyrsiau hunan-astudio byr ar-lein yn cynnig cyfleoedd defnyddiol ychwanegol i bobl ymestyn eu hyfedredd yn yr iaith trwy gyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer cefnogwyr, rheolwyr a staff yn y campau hyn.

### Ciplun: Croeso i Wrecsam

Mae proffil lleol, cenedlaethol a rhyngwladol Clwb Pêl-droed Wrecsam wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain wedi manteisio'n fuddiol ar hyn trwy greu partneriaeth â'r clwb gyda thiwtor llawn amser wedi'i leoli yno. Mae'r tiwtor yn darparu gwersi un i un neu mewn grwpiau bychain i amrywiaeth o bobl gan gynnwys chwaraewyr, rheolwyr, staff y siop, ymwelwyr a'r perchnogion. Un o gryfderau pennaf y ddarpariaeth yw bod y tiwtor yn addasu a theilwra nod y gwersi'n effeithiol iawn i ddiwallu anghenion y dysgwyr, er enghraifft trwy ymarfer rhifolion, geiriau a chystrawennau perthnasol. Yn ogystal, mae'r tiwtor yn cefnogi staff allweddol i ymateb i gwestiynau cyfweliad gan y cyfryngau yn hyderus. Mae hyn oll yn cyfrannu'n llwyddiannus at broffil uchel i'r iaith a defnydd cynyddol ohoni.

Oherwydd ymrwymiadau a phwysau gwaith mae presenoldeb dysgwyr ar raglenni gweithle yn gallu bod yn ysbeidiol ac mae presenoldeb a chyfraddau cwblhau yn amrywio o ddarparwr i ddarparwr. Serch hynny, mae llawer o ddysgwyr, ar draws yr holl raglenni dan arweiniad tiwtor, yn cwblhau eu cyrsiau ac mae'r mwyafrif ohonynt yn parhau i gyrsiau dilynol. Er y dylid nodi, oherwydd natur y ddarpariaeth, nid oes angen cwrs dilynol bob tro gan fod dysgwyr wedi cyflawni'r hyn oedd yn nod iddynt cyn cychwyn ar eu cyrsiau.

Yn gyffredinol, mae darparwyr Cymraeg Gwaith yn ddyfeisgar wrth greu a chadw dosbarthiadau'n hyfyw. Er enghraifft, trwy greu dosbarthiadau rhwng sefydliadau gwahanol os na fydd niferoedd digonol o ddarpar-ddysgwyr o fewn sefydliadu unigol. Ar y cyfan mae hyn yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau nid oes rhesymeg glir dros wneud hyn ac mae'n arwain at ormod yn y grwpiau ac nid oes digon o ffocws ar brif bwrpas y ddarpariaeth sef sut gall dysgwyr ddefnyddio'r iaith yn ymarferol yn eu gweithleoedd. Mewn ychydig iawn o sesiynau mae ychydig o ddarparwyr wedi caniatáu i aelodau'r cyhoedd ymuno â grwpiau ac mae hyn yn aml yn cael effaith negyddol ar gadw'r ffocws ar baratoi dysgwyr at ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithleoedd.

Mae darpariaeth Cymraeg Gwaith yn parhau i ddatblygu mewn ymateb i'r galw cynyddol gan sefydliadau amrywiol sydd am ddefnyddio'r Gymraeg yn fwyfwy wrth ymwneud â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Enghraifft o ymestyniad parhaus y cynllun yw'r rhaglen newydd ar gyfer gweision sifil sy'n gweithio i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac yn gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru. Cynigir cyrsiau hunan-astudio wedi'u teilwra ar eu cyfer a denwyd bron 200 o ddysgwyr i ymrestru yn ystod tri mis cychwynnol y rhaglen yn nhymor y gwanwyn 2025.

Yn ôl ffigurau'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer 2024-25, sydd heb eu cyhoeddi eto, mae cynnydd sylweddol o ran nifer y dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau yn y sector gofal a chyrsiau

eraill dan arweiniad tiwtor. Mae'r nifer sy'n elwa o brofiadau trochi Nant Gwrtheyrn wedi cynyddu hefyd.

Yn ychwanegol, ers 2024-25 cynigir adnodd Say Something In Welsh (SSIW) i bob dysgwr ar y rhaglenni Cymraeg Gwaith yn yr un modd â dysgwyr ar gyrsiau prif ffrwd. Mae hwn yn adnodd defnyddiol i atgyfnerthu'r dysgu a wneir yn yr ystafell ddosbarth.

### Addysgu a dysgu

Yn gyffredinol, mae'r addysgu a'r dysgu ar draws y sector Dysgu Cymraeg yn gryf. Fel y nodwyd yn Adroddiad arolygiad Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol 2024,

'Mae llawer o ddysgwyr ar draws y darparwyr yn gwneud cynnydd cadarn iawn wrth ddatblygu eu holl fedrau Cymraeg. Cryfder amlwg y sector yw'r ffordd mae'n cynhyrchu siaradwyr newydd sy'n datblygu eu llafaredd yn llwyddiannus, ble bynnag y maent ar y continwwm iaith. Maent yn siarad yn gynyddol ddigymell â'i gilydd a gyda'u tiwtoriaid, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd.'

O ganlyniad gwnaed argymhelliad i'r Ganolfan,

'Parhau i ymestyn a rhannu arbenigedd y sector Dysgu Cymraeg o ran addysgeg a chaffael ail iaith i sectorau perthnasol eraill i gefnogi nod Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.'

Amlygwyd yr arferion cryf hyn yn ystod gwaith maes yr arolygiad hydredol hwn.

Mae bron pob un tiwtor yn llwyddo i greu a chynnal awyrgylch gadarnhaol mewn gwersi wyneb yn wyneb ac ar-lein sydd yn sail gadarn i ddysgwyr gaffael a datblygu eu defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos cymhelliant cryf iawn dros ddysgu ac yn cyfranogi yn gadarnhaol yn ystod y sesiynau. Maent yn mwynhau dysgu ac yn awyddus i barhau ar eu teithiau iaith personol. Mae bron pob un ohonynt yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu gan ddod yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog. Mae presenoldeb ychydig o ddysgwyr yn ysbeidiol oherwydd pwysau gwaith ar y cyfan.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr gan eu herio yn effeithiol i wneud y cynnydd gorau posibl. Maent yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o'r iaith darged sydd yn ei dro yn cael effaith cadarnhaol ar fedrau gwrando a siarad eu dysgwyr. Mae llawer ohonynt yn amrywio technegau holi'n fuddiol i ddatblygu atebion a syniadau dysgwyr ymhellach. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n astud ac yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus. Mae llawer yn ymateb yn bwrpasol i adborth gan

ymgymryd â thasgau, a'u cwblhau. Maent yn dangos dyfalbarhad a chwilfrydedd pan fyddant yn wynebu anawsterau neu gysyniadau newydd. Ymdrecha llawer ohonynt yn bwrpasol i siarad Cymraeg â'u tiwtoriaid ac â'i gilydd.

Mae'r tiwtoriaid yn frwdfrydig ac maent yn annog dysgwyr i geisio eu gorau glas i ddefnyddio'r Gymraeg y tu fewn a'r tu allan i wersi. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau, ar draws y rhaglenni gwahanol, nid yw tiwtoriaid yn teilwra'r cynnwys yn ddigon cyson i sicrhau perthnasedd y gwersi i'r gweithle. Yn y sesiynau hyn, nid oes digon o ffocws ar ddatblygu defnydd pwrpasol o'r iaith gan ddysgwyr yn eu gweithleoedd neu ar fonitro eu cynnydd fel siaradwyr cynyddol weithredol o fewn cyd-destun gwaith.

Yn yr achosion gorau mae tiwtoriaid yn addasu a theilwra sesiynau i anghenion proffesiynol y dysgwyr. Drwy wneud yr addysgu'n berthnasol mae'r dysgwyr yn fwy tebyg o ddefnyddio'r iaith rhwng gwersi yn y gwaith.

### Ciplun: Cysylltu perthnasedd ac effaith

Ers tymor yr hydref 2024, mae swyddog datblygu gweithle Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe wedi cynnal gwersi gyda staff marchnata rhanbarth rygbi Y Gweilch yn Stadiwm Abertawe. Treuliodd y tiwtor amser yn swyddfa'r tîm er mwyn arsylwi ac asesu'r math o iaith oedd ei hangen ar y darpar ddysgwyr. Mae cynnwys y cwrs mynediad wedi cael ei deilwra'n fedrus i gynnwys cystrawennau, geirfa ac adnoddau sain a fideo sy'n berthnasol i anghenion y grŵp. Er enghraifft, addasir clipiau fideo o gyfweliadau gyda chwaraewyr ar raglenni rygbi S4C i greu adnoddau ystyrlon a real i'r grŵp. Mae effaith yr arlwy creadigol i'w weld ar gynnydd yn nefnydd o'r iaith yng nghyfathrebiadau'r clwb, yn enwedig ar eu cyfryngau cymdeithasol. Cynhyrchwyd clipiau hwyliog o chwaraewyr Cymraeg eu hiaith yn dysgu geiriau i gyd-chwaraewyr di-Gymraeg. Mae hyn wedi derbyn ymateb cadarnhaol gan gefnogwyr ac yn ei dro wedi arwain at gynnig gwersi blasu am ddim i gefnogwyr y rhanbarth.

### Ciplun: Teilwra cynnwys yn greadigol

Un o fanteision Cymraeg Gwaith yw'r ffaith bod modd i ddarparwyr fod yn greadigol wrth deilwra darpariaeth. Yn dilyn cais gan y Ganolfan Genedlaethol cynigiodd Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin gyfres o bump sesiwn i bobl ifainc oedd yn dilyn rhaglen Twf Swyddi Cymru Plws trwy'r darparwr hyfforddiant COPA. Bwriad y rhaglen oedd ysbrydoli'r bobl ifainc i ddeall y posibiliadau sydd ar gael iddynt yng Nghymru a gwerth y Gymraeg yn y byd swyddi. Cynhaliwyd pump dosbarth gyda phedwar tiwtor ar bedwar safle gwahanol ac yn hytrach na dysgu trwy gyfrwng cwrs lyfr Cymraeg yn unig crëwyd deunyddiau dysgu newydd a gwahoddwyd siaradwyr allanol i annerch y dysgwyr. Roedd y rheiny yn cynnwys artist llawrydd, cwmni cynhyrchu bwydydd adnabyddus o Gymru a gwneuthurwr ffilmiau o'r U.D.A sy'n dewis byw a gweithio yng Nghymru. Roedd y bobl ifainc wedi ymateb yn frwdfrydig i'r arlwy creadigol ac wedi dod i ddeall yn well yr hyn sydd ar gael iddynt yng Nghymru a sut gall y Gymraeg agor drysau yn y byd gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu'n effeithiol yn unol â'u lefel. Maent yn datblygu eu gallu i ddarllen testunau cynyddol gymhleth gan wella eu dealltwriaeth o strwythurau a gramadeg yr iaith. Mae hyn yn ei dro'n cyfrannu at gynhyrchu gwaith ysgrifenedig cynyddol uchelgeisiol ac estynedig wrth iddynt wneud cynnydd ar hyd y continwwm ieithyddol. Mae ychydig o ddysgwyr, yn arbennig ar gyrsiau lefel uwch, yn gwneud cynnydd cryf iawn wrth ddarllen ac ysgrifennu darnau soffistigedig at ddibenion gwaith, er enghraifft adroddiadau swyddogol a chynhyrchu deunyddiau mewn cyweiriau priodol ar gyfer delio â'r wasg neu'r cyhoedd.

At ei gilydd, mae llawer o ddysgwyr ar raglenni Cymraeg Gwaith yn gwneud cynnydd da yn eu holl fedrau iaith ac mae ychydig ohonynt, yn arbennig ar raglenni i siaradwyr dihyder neu ddysgwyr ar lefelau canolradd ac uwch, yn gwneud cynnydd rhagorol. Maent yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus ac annibynnol sydd yn defnyddio eu Cymraeg gyda chydweithwyr a gyda'r cyhoedd mewn sefyllfaoedd proffesiynol ac anffurfiol.

### Ciplun: Creu dysgwyr gweithredol ac annibynnol: Mwy na geiriau

Mae rhaglenni Codi Hyder yn cael effaith amlwg a phellgyrhaeddol. Drwy dargedu staff yn y byrddau iechyd mae tiwtoriaid arbenigol yn cynnig cymorth a mentora hynod effeithiol i ddysgwyr profiadol a siaradwyr dihyder. Mewn byr o dro mae llawer o'r bobl hyn yn dechrau defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith gyda chydweithwyr a gyda chleifion. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn fuddiol dros ben i ymlacio cleifion ac ennill eu hymddiriedaeth mewn sefyllfaoedd sensitif iawn. Er enghraifft, mae nyrsys adrannau gwahanol a staff adrannau seicoleg yn cyfathrebu â chleifion a'u teuluoedd yn Gymraeg er budd y claf a'r broses gyfathrebu. Yn sgil magu hyder ieithyddol mae therapyddion iaith a lleferydd yn defnyddio'r Gymraeg gyda chleifion ag anghenion ychwanegol neu'r rheiny sydd yn ei chael hi'n anodd i siarad yn dilyn cael strôc. Mae therapyddion galwedigaethol yn normaleiddio defnydd cymunedol o'r iaith gyda chleifion yn fuddiol. Mae hyn oll yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r gwasanaethau a gynigir gan ymarferwyr proffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cynorthwyo cyflogwyr i gynllunio yn ieithyddol

Un o brif amcanion Cymraeg Gwaith yw sefydlu partneriaethau strategol hirdymor fydd yn dylanwadu ar newid a chynyddu defnydd iaith.

I'r perwyl hwn, mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cynnig Gwasanaethau Cymraeg Gwaith i gyflogwyr, sef adnoddau a gwybodaeth ddefnyddiol i'w cefnogi i gynllunio rhaglenni hyfforddiant ac i ymgorffori'r Gymraeg yn y gweithle. Mae modd i gyflogwyr ddefnyddio'r adnodd gwiriwr lefel i asesu sgiliau iaith gweithluoedd ac adnabod medrau iaith y sawl sydd yn gweithio o fewn eu sefydliadau eisoes. Drwy Academi Cymraeg Gwaith darperir hyfforddiant, arweiniad a chefnogaeth i gyflogwyr. Mae'r hyfforddiant hyd yn hyn yn cynnwys sesiynau megis cadeirio a chynnal digwyddiadau dwyieithog, cynllunio a rheoli gweithleoedd Cymraeg a dwyieithog a defnyddio'r Gymraeg mewn iechyd a gofal. Mae'r sesiynau hyn yn ddefnyddiol iawn wrth drafod yn ystyrlon sut i ddatblygu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd real. Mae'r Ganolfan wedi addasu'r rhaglen yn ddiweddar i gynnwys adrannau megis cymorth i gynllunio integreiddio'r Gymraeg, ymwybyddiaeth iaith, datblygu sgiliau iaith Gymraeg, gwasanaeth cwsmer ac arweiniad ar sut i sefydlu cynlluniau mentora a hyrwyddwyr. Mae'r sesiynau yn targedu cyrff cyhoeddus yn ogystal â sefydliadau preifat neu drydydd sector sydd wedi neu'n awyddus i dderbyn cydnabyddiaeth Comisiynydd y Gymraeg trwy'r Cynnig Cymraeg.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu ei pherthynas gyda swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn fuddiol gan fewnbynnu'n werthfawr i bwyllgorau amrywiol sy'n edrych ar ddatblygu a defnyddio'r Gymraeg o fewn gweithleoedd gyda phwyslais clir ar newid ymddygiad ieithyddol a datblygu dulliau o fesur defnydd o'r iaith. Mae'r gwaith strategol,

pwysig hwn yn cael ei datblygu ymhellach gan ganolbwyntio ar sicrhau bod y gwasanaethau a'r cyngor a gynigir gan y Comisiynydd a'r sector Dysgu Cymraeg i gyflogwyr yn gydlynus.

Serch hynny, nid yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr Dysgu Cymraeg yn ymwybodol o bwrpas ac ystod y cynnig uchod a ymgorfforir yn y Gwasanaethau Cymraeg Gwaith. Er enghraifft, mae'r Ganolfan Genedlaethol yn gyfrifol am ddosbarthu Adnoddau a nwyddau fel cortynnau gwddf sy'n cydnabod bod unigolion yn dysgu Cymraeg yn ogystal ag adnoddau electronig fel llofnodion e-bost a logo *Dw i'n dysgu Cymraeg*. Fodd bynnag, mae'r ffordd mae darparwyr Dysgu Cymraeg unigol yn marchnata'r adnoddau pwysig hyn yn anghyson.

Hyd yn hyn, mae darparwyr Dysgu Cymraeg wedi canolbwyntio ar ddarparu'n bennaf ac nid ydynt wedi cyfrannu digon at drafodaethau o ran cynllunio ieithyddol y gweithlu. Nid oes digon o drafod wedi bod rhwng dysgwyr, cyflogwyr, darparwyr a'r Ganolfan Genedlaethol ynglŷn â'r ffyrdd gorau o sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio eu medrau iaith newydd yn gyson mewn cyd-destun gwaith.

Mae mwyafrif y dysgwyr ar raglenni Cymraeg Gwaith yn nodi nad oes digon o gefnogaeth gan eu cyflogwyr. Er enghraifft, nid yw rheolwyr llinell yn gwirio eu cynnydd neu drafod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu swyddi. Mae ychydig o ddysgwyr yn dweud nad ydynt yn cael eu rhyddhau o'u dyletswyddau arferol i fynychu dosbarthiadau ac mae hyn yn cynyddu eu llwyth gwaith ac yn eu rhwystro rhag dechrau neu gwblhau cyrsiau.

### Ciplun: Cytundeb clir ar ddatblygu'r iaith

Mae Dysgu Cymraeg Gwent a Chyngor Dinas Casnewydd wedi llunio cytundeb Cymraeg Gwaith sy'n gosod yn glir y disgwyliadau ar y darparwr, y cyngor a'r dysgwyr a'u rheolwyr llinell. Mae pob dysgwr yn ymrwymo i fynychu sesiynau wythnosol ac mae'r cyngor yn ymrwymo i ryddhau'r staff i fynychu'r sesiynau fel rhan o'u horiau gwaith arferol. Mae'r tiwtor Cymraeg Gwaith, y dysgwyr a'u rheolwyr llinell yn cyd-lofnodi'r cytundeb mewn proses dryloyw sydd yn cael effaith cadarnhaol ar allbynnau'r rhaglen. Mae rheolwyr llinell y dysgwyr yn trafod cynnydd y dysgwyr yn ystod eu cyfarfodydd rheoli arferol ac mae hyn yn arwain at gynllunio ieithyddol cydlynus.

**Ciplun: Marchnata manteision a chynnig canllawiau**

Mae Dysgu Cymraeg Caerdydd wedi datblygu pecyn gwybodaeth defnyddiol i ddarpar gleientiaid. Mae'r llyfryn yn cynnwys gwybodaeth am wefannau defnyddiol yn ogystal â manteision dewis dysgu Cymraeg i staff a syniadau am sut gall sefydliadau gyflwyno mwy o Gymraeg yn eu sefydliadau gan gynnwys methodoleg newid ymddygiad iaith. Mae hyn oll yn cynnig arweiniad clir i sefydliadau sylweddoli bod angen iddynt wneud mwy na chynnig gwersi Cymraeg os ydynt am gynyddu defnydd o'r iaith yn fewnol ac yn allanol.

Ers mis Mai 2025 mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi gweithredu'n gadarn trwy sefydlu grŵp y gweithle gyda swyddogion Cymraeg Gwaith cenedlaethol a phenaethiaid neu swyddogion perthnasol pob un o'r darparwyr Dysgu Cymraeg yn aelodau ohono. Mae'r grŵp hwn yn ystyried materion allweddol megis pecyn cymorth comisiynu newydd, trafod a rhannu heriau ac adeiladu'r ddarpariaeth gyda'i gilydd trwy adnabod arferion da, a sicrhau bod y swyddogion gweithle yn rhan o'r cynllunio strategol. Mae hyn yn adleisio strwythur llwyddiannus tebyg yn y sector iechyd a gofal sy'n bodoli eisoes. Mae'r swyddog cenedlaethol sy'n gyfrifol am y sector hwnnw yn gweithio'n effeithiol gyda swyddogion a thiwtoriaid Codi Hyder i sicrhau ansawdd a chysondeb yn y cynnig trwy drafod materion pwysig yn rheolaidd. Mae cynnydd dysgwyr unigol, camau nesaf eu dysgu a sut maent yn defnyddio'r Gymraeg yn cael eu monitro'n fanwl. Mae hyn yn cael effaith cadarnhaol ar drafodaethau gyda dysgwyr ar bob lefel ynglŷn â sut maent yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

Yn gyffredinol, mae'r cysylltiad rhwng yr addysgu a dysgu a'r elfen gynllunio ieithyddol ar ei orau pan fo tiwtoriaid llawn amser yn gweithio'n strategol o fewn sectorau penodol fel y sector iechyd, awdurdodau lleol a'r sector chwaraeon. Mae'r tiwtoriaid hyn yn dod i adnabod anghenion addysgol a galwedigaethol eu dysgwyr ac yn gweithio'n ddiwyd ac yn greadigol i gynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg o fewn eu gweithleoedd. Maent hefyd yn ffurfio perthnasoedd gwaith buddiol gyda staff allweddol yn y sefydliadau, fel swyddogion iaith Gymraeg, ac yn cyfrannu at drafodaethau mewnol ar gynllunio gweithlu. Drwy wneud hyn maent yn dylanwadu'n werthfawr ar agweddau ac arferion ieithyddol y sefydliadau hynny. Mae hyn yn ei dro yn arwain at addysgu a dysgu mwy effeithiol, ac yn y pendraw at wasanaethau gwell i siaradwyr Cymraeg eu hiaith.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cydnabod yr angen i wella cysondeb yn y cynnig a'r elfen gynllunio ieithyddol ar draws y sectorau amrywiol sy'n derbyn gwersi Cymraeg. Enghraifft o hyn yw penodi tri thiwtor Codi Hyder a Chefnogi Cenedlaethol ar gyfer dysgwyr y cynllun Cymraeg Gwaith yn ystod 2024-25, sydd yn ymestyn yr arfer llwyddiannus hwn trwy weithio gyda sectorau eraill. Mae'r tri thiwtor yn canolbwyntio ar gynlluniau dilyniant ac ôl-ofal gan gydweithio â swyddogion perthnasol o fewn sefydliadau sy'n derbyn gwersi a darparwyr Dysgu Cymraeg.

Yn gyffredinol, mae'r traweffaith mwyaf arwyddocaol ar gynllunio ieithyddol i'w weld pan fo darpariaeth yn targedu dysgwyr lefel Canolradd ac uwch a siaradwyr dihyder. Mae tiwtoriaid medrus yn llwyddo i'w troi'n siaradwyr gweithredol mewn cyfnod cymharol fyr ac yn gyflymach o lawer na darpariaeth sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddechreuwyr.

## Rheolaeth ac arweinyddiaeth yn genedlaethol ac yn lleol

Mae'r cynllun Cymraeg Gwaith wedi esblygu'n gyflym iawn ers iddo gael ei sefydlu yn 2018 dan ofal y cyfarwyddwr cynllunio a datblygu ac mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi ymateb yn chwim i'w dwf sylweddol a newidiadau niferus.

Addaswyd y cynllun i gynnwys elfennau o ddysgu digidol yn sgil heriau'r pandemig, pan gwtogwyd y cyllid gan £1m, yn 2020. Yn 2021, adferwyd lefelau cyllid i'w lefel wreiddiol, sef £2.5m a pheilotwyd cyrsiau codi hyder i siaradwyr dihyder. Yn 2022 dechreuodd y Ganolfan weithio gyda'r sector chwaraeon. Sefydlwyd y cynllun iechyd a gofal cenedlaethol , gyda buddsoddiad o £0.5m yn 2023 ac yn 2024 cyflwynodd y Ganolfan strwythurau ansawdd newydd i'r sector Dysgu Cymraeg oedd yn cysoni'r gwaith sicrhau ansawdd ar draws darpariaeth brif ffrwd a darpariaeth Cymraeg Gwaith.

Drwy gyflawni'r uchod mae'r Ganolfan wedi dangos arweinyddiaeth strategol bendant a chlir i'r sector ac wedi llwyddo i gadw rheolaeth ar y cynllun aml-haenog hwn yn llwyddiannus. Mae'r Ganolfan yn cwrdd â darparwyr yn rheolaidd i fonitro a thrafod eu holl waith ac yn cwrdd â chyflogwyr mawr yn gyson. Mae arweinwyr y Ganolfan yn adnabod cyfleoedd i gysoni a gwella strwythurau, cyfathrebu ac arferion addysgol yn ddilys, er enghraifft trwy sefydlu grŵp y gweithle yn ddiweddar.

Mae'r Ganolfan yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant gwerthfawr i diwtoriaid y sector trwy'r Academi gan gynnwys cyfleoedd penodol i diwtoriaid Cymraeg Gwaith. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i diwtoriaid ddatblygu'r gallu i deilwra cyrsiau a sicrhau eu bod yn berthnasol i gynulleidfaoedd gwahanol. Yn ddiweddar, mae'r Ganolfan wedi datblygu system newydd sef adeiladwr cwrs sy'n galluogi tiwtoriaid i greu cyrsiau wedi'u teilwra i greu cyrsiau sy'n addas i anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae'r adnodd yn cynnwys clipiau fideo a sain, adnoddau digidol, atodiadau a gweithgareddau ac yn arfogi tiwtoriaid i gyd-destunoli cynnwys cyrsiau'n rhwydd.

Mae darparwyr unigol yn rheoli'r ddarpariaeth Cymraeg Gwaith yn briodol ac yn sicrhau bod ansawdd yr addysgu a dysgu yn efelychu safonau uchel y ddarpariaeth brif ffrwd. Mae'r ffaith bod pob darparwr yn dilyn yr un math o gwricwlwm yn golygu bod modd i ddysgwyr symud i gyrsiau eraill o fewn cyfundrefn y sector yn ddi-drafferth. Mae cwricwlwm y sector yn seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR). Bydd y CEFR yn sail i gontinwwm iaith newydd i sectorau addysg Cymru

pan fydd y Ganolfan, o dan Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, yn ehangu ei rôl ac yn newid ei statws i ddod yn gorff statudol o'r enw 'Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Cenedlaethol', fydd yn hwyluso a chefnogi dysgu Cymraeg gydol oes, gan gynnwys cefnogi ysgolion gyda mentrau fel hyfforddi'r gweithlu addysg.

Nid yw sefydliadau cartref darparwyr Dysgu Cymraeg yn cael brigdorri cyllid Cymraeg Gwaith. O ganlyniad, defnyddir yr holl gyllid i greu darpariaeth. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn caniatáu i ddarparwyr ychwanegu at y gweithlu'n fuddiol a chynnig llwybrau gyrfaol gwahanol. Yn ogystal, mae'n galluogi rheolwyr i ddefnyddio tiwtoriaid presennol yn hyblyg. Dyrennir cyllid Cymraeg Gwaith ar sail prosiectau unigol, tymor byr ac mae rheolwyr y darparwyr yn treulio cryn dipyn o amser ar weinyddu'r ffrydiau cyllid amrywiol. Mae cyllido ar sail tymor byr yn heriol i reolwyr yn genedlaethol ac yn lleol o ran cyflogaeth a sicrhau bod cynllunio strategol, naill ai o ran darparu neu gynllunio ieithyddol, mor effeithiol ag y gallent fod. Er enghraifft, nid yw gweithdrefnau i fesur effaith y ddarpariaeth ar newid ymddygiad iaith wedi eu datblygu'n llawn eto.

Mae arweinwyr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi dangos gweledigaeth arloesol wrth gyflwyno a datblygu'r cynllun Cymraeg Gwaith. Maent yn gweithio'n effeithiol iawn gyda chyflogwyr, darparwyr a rhanddeiliaid i'w ehangu a chynllunio ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a'r gweithdrefnau i'w chynnal.

Mae'r galw cynyddol am ehangu'r ddarpariaeth werthfawr bresennol yn dangos yn glir bod Cymraeg Gwaith erbyn hyn yn un o gonglfeini mentrau cynllunio ieithyddol yn y gweithle. Mae'r rhaglenni gwahanol yn cyflawni swyddogaeth hynod bwysig a chanolog mewn ymdrechion i ymestyn a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg mewn sectorau sydd yn greiddiol i ddyfodol yr iaith Gymraeg fel iaith weithredol fyw.

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Crown Copyright 2025: This report may be re used free of charge in any format or medium provided that it is re used accurately and not used in a misleading context. The material must be acknowledged as Crown copyright and the title of the report specified.

Publication date: 10/09/2025